| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 TACHWEDD 2021** |
| TEITL: | **ADOLYGU AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol ac adolygu amcanion y dyfodol** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI CYNNYDD A CHYMERADWYO AMCANION Y DYFODOL** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") y dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi.

## 2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

## 3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2021.

Mae gofyn i'r datganiad cydymffurfio gael ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed Ionawr 2022.

## 4. AMCANION Y DYFODOL

Bydd yr amcanion cyfredol yn parhau am y cyfnod nesaf gyda amcan ychwanegol wedi ei adnabod i ddatblygu dealltwriaeth am risg hinsawdd a ESG.

Nod yr amcan yma yw i sicrhau bod yr ymgynghorwyr buddsoddi yn adeiladu dealltwriaeth y Pwyllgor ar ystyriaethau ESG a risg hinsawdd, gan gefnogi

gweithredu gofynion llywodraeth TCFD a helpu'r Pwyllgor i ddeall a rheoli risgiau yn gysylltiedig a'r hinsawdd o fewn y strategaeth.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad cynnydd a chymeradwyo amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.